

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	1af o Fai 2019
TEITL:	Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion maes y Gymraeg
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreiffiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:

Amlygir yma llwyddiannau staff y Cyngor, y tu hwnt i waith y Swyddogion sydd yn gweithio yn benodol i hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Tynnir sylw at enghreifftiau lle mae swyddogion y Cyngor wedi cael llwyddiant eithriadol yn datblygu sgiliau neu wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn wrth hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod y trigolion yn cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o safon:

Ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Iaith:

- Mae ymdrechion un aelod o staff Byw'n Iach i ddysgu a defnyddio mwy o'r Gymraeg yn ei gwaith wedi cael ei gydnabod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Roedd yr aelod staff wedi derbyn cefnogaeth drwy'r Cynllun Cyfeillion Cymraeg newydd (sydd wedi ei sefydlu gan y Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Gymraeg i gynnig cefnogaeth ymestynnol i ddysgwyr y tu allan i wersi ffurfiol) i fagu hyder i siarad Cymraeg gyda ei chleientiaid, ac roedd y cleientiaid wedi cydnabod a diolch iddi am ei hymdrechion.

- Yn dilyn sesiynau dysgu a chodi hyder a drefnwyd gan y Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, llwyddodd aelod o staff o'r Adran Ymgynghoriaeth i ennill swydd Rheolwr Uned. Cynhaliodd ei gyfweiliad yn y Gymraeg, ac roedd hyn yn rhannol gyfrifol am ei benodiad yn ôl Pennaeth yr Adran.
- Rheolwr yn Adran Plant wedi sefydlu cyfarfodydd/sesiynau i ddysgu neu godi hyder yn defnyddio Cymraeg yn ystod amser cinio yn y gweithle. Hyn yn atgyfnerthu sesiynau gloywi iaith a gynhaliwyd gan Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg ar y safle.
- Dysgwyr Cymraeg yn Hafod Mawddach wedi sefydlu grŵp trafod ar Whatsapp i gadw mewn cyswllt, rhannu straeon a helpu'i gilydd i ddysgu Cymraeg. Roedd hyn yn dilyn trafodaethau am gynnal sesiynau dysgu yn y Cartref, ac er mwyn cadw'r momentwm tra'r oedd sesiynau'n cael eu trefnu.

CWYNION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

Derbyniwyd dyfarniad ar un ymchwiliad gan y Comisiynydd.

Yn achos **CSG236** barnwyd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio gyda dau Safon (Safon 1 a Safon 112) ac wedi methu a delio gyda gohebiaeth a phroses apelio yn ei chyfanrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi derbyn y dyfarniad ac wedi cymryd nifer o gamau gweithredu, yn unol ag argymhellion yr adroddiad dyfarnu terfynol, er mwyn sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn codi eto.

Mae Polisi Iaith y Cyngor yn datgan yn glir bod gan unrhyw aelod o staff hawl i gyflwyno cwynion a dilyn proses gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu nifer o bolisiau sy'n ymwneud â hawliau gweithwyr, er mwyn sicrhau bod yr hawl iddynt ddilyn prosesau cwyno ac apelio mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi yn eglur a chlir.

CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Cyfreithiol	1	<p>Ffurflen etholiad Ewrop wedi ei dderbyn yn uniaith Saesneg.</p> <p>Anfonwyd ymddiheuriad i'r unigolyn yn egluro bod y taflenni wedi eu hanfon allan gan gwmni allanol a bod y Cyngor dan yr argraff eu bod yn darparu'r ffurflenni yn ddwyieithog. Oherwydd y cyfyngiad amser – a'r amser byr iawn rhwng cyhoeddi dyddiad yr etholiadau a'u cynnal, ni fu yn bosib unioni'r sefyllfa.</p>
Amgylchedd	1	<p>Aelod o staff wedi gwneud cyflwyniad mewn sesiwn wybodaeth yn Saesneg.</p> <p>Codwyd y mater gyda rheolwr y gwasanaeth dan sylw a chadarnhawyd mai diffyg hyder yr unigolyn oedd wedi arwain at y sefyllfa.</p> <p>Mae'r rheolwr wedi cynnal trafodaeth gyda'r tîm am ofynion y Polisi Iaith yn y cyd-destun yma, wedi rhannu linciau i dermau perthnasol o fewn y maes gwaith, ac</p>

		<p>wedi cynnig hyfforddiant i unrhyw un o fewn y tîm sydd yn dymuno magu hyder neu wella eu sgiliau. Mae'r aelod staff wedi cofrestru ar gyfer ers Gloywi laith yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac mae'r angen i sicrhau bod aelodau eraill o'r tîm yn hyderus i allu gwneud cyflwyniadau yn y dyfodol wedi ei drafod.</p>
--	--	---